Sunday the 11th of October 2026
+ The Nineteenth Sunday after Trinity

The collect of the day

O God, forasmuch as without you we are not able to please you; mercifully grant that your Holy Spirit may in all things direct and rule our hearts; through Jesus Christ our Lord, to whom with you and the Holy Spirit be all honour and glory, now and for ever. AMEN

The reading from Isaiah
(25.1-9)

O Lord, you are my God; I will exalt you, I will praise your name; for you have done wonderful things, plans formed of old, faithful and sure. For you have made the city a heap, the fortified city a ruin; the palace of aliens is a city no more, it will never be rebuilt. Therefore strong peoples will glorify you; cities of ruthless nations will fear you. For you have been a refuge to the poor, a refuge to the needy in their distress, a shelter from the rainstorm and a shade from the heat. When the blast of the ruthless was like a winter rainstorm, the noise of aliens like heat in a dry place, you subdued the heat with the shade of clouds; the song of the ruthless was stilled.

On this mountain the Lord of hosts will make for all peoples a feast of rich food, a feast of well-matured wines, of rich food filled with marrow, of well-matured wines strained clear. And he will destroy on this mountain the shroud that is cast over all peoples, the sheet that is spread over all nations; he will swallow up death for ever. Then the Lord God will wipe away the tears from all faces, and the disgrace of his people he will take away from all the earth, for the Lord has spoken. It will be said on that day, Lo, this is our God; we have waited for him, so that he might save us. This is the Lord for whom we have waited; let us be glad and rejoice in his salvation.

The Psalm
(23)

The Lord / is my / shepherd: therefore / can I / lack / nothing. He makes me lie down in / green / pastures: and / leads me be/side still / waters. He shall re/fresh my / soul: and guide me in the paths of righteousness * / for his / name's / sake.

Though I walk through the valley of the shadow of death, I will / fear no / evil: for you are with me; your / rod and your / staff, they / comfort me.

You spread a table before me * in the presence of / those who / trouble me: you have anointed my head with oil * / and my / cup shall be / full.

Surely goodness and loving mercy shall follow me * all the / days of my / life: and I will dwell in the / house of the / Lord for / ever.

The reading from Philippians
(4.1-9)

My brothers and sisters, whom I love and long for, my joy and crown, stand firm in the Lord in this way, my beloved.

I urge Euodia and I urge Syntyche to be of the same mind in the Lord. Yes, and I ask you also, my loyal companion, help these women, for they have struggled beside me in the work of the gospel, together with Clement and the rest of my co-workers, whose names are in the book of life.

Rejoice in the Lord always; again I will say, Rejoice. Let your gentleness be known to everyone. The Lord is near. Do not worry about anything, but in everything by prayer and supplication with thanksgiving let your requests be made known to God. And the peace of God, which surpasses all understanding, will guard your hearts and your minds in Christ Jesus.

Finally, beloved, whatever is true, whatever is honourable, whatever is just, whatever is pure, whatever is pleasing, whatever is commendable, if there is any excellence and if there is anything worthy of praise, think about these things. Keep on doing the things that you have learned and received and heard and seen in me, and the God of peace will be with you.

The reading from the Gospel according to Saint Matthew
(22.1-14)

Once more Jesus spoke to them in parables, saying: 'The kingdom of heaven may be compared to a king who gave a wedding banquet for his son. He sent his slaves to call those who had been invited to the wedding banquet, but they would not come.

'Again he sent other slaves, saying, "Tell those who have been invited: Look, I have prepared my dinner, my oxen and my fat calves have been slaughtered, and everything is ready; come to the wedding banquet." But they made light of it and went away, one to his farm, another to his business, while the rest seized his slaves, maltreated them, and killed them. The king was enraged. He sent his troops, destroyed those murderers, and burned their city.

'Then he said to his slaves, "The wedding is ready, but those invited were not worthy. Go therefore into the main streets, and invite everyone you find to the wedding banquet." Those slaves went out into the streets and gathered all whom they found, both good and bad; so the wedding hall was filled with guests.

'But when the king came in to see the guests, he noticed a man there who was not wearing a wedding robe, and he said to him, "Friend, how did you get in here without a wedding robe?" And he was speechless. Then the king said to the attendants, "Bind him hand and foot, and throw him into the outer darkness, where there will be weeping and gnashing of teeth."

'For many are called, but few are chosen.'

The collect following communion

Holy and blessed God, you have fed us with the body and blood of your Son and filled us with your Holy Spirit : may we honour you, not only with our lips but in lives dedicated to the service of Jesus Christ our Lord. AMEN



Text from the Church in Wales – Word of the Lord 2011 copyright © Church in Wales Publications 2011. Collects and Post Communion Prayers from the book *New Calendar and the Collects.* Copyright © The Representative Body of the Church in Wales 2003 ISBN – 1853115495. Quotations and Psalms from *The New Revised Standard Version (Anglicized Edition)*, copyright 1989, 1995 by the Division of Christian Education of the National Council of the Churches of Christ in the United States of America. Used as permitted.

Dydd Sul 11eg Hydref 2026
+ 19eg Sul wedi'r Drindod

Colect y dydd

O Dduw, gan na allwn hebot ti dy fodloni di; yn dy drugaredd caniatâ fod i'th Ysbryd Glân ym mhob peth gyfarwyddo a llywio ein calonnau; trwy Iesu Grist ein Harglwydd, y bo iddo gyda thi a'r Ysbryd Glân yr holl anrhydedd a gogoniant, yn awr ac am byth. AMEN

Darlleniad o Eseia
(25.1-9)

O ARGLWYDD, fy Nuw ydwyt ti; mawrygaf di a chlodforaf dy enw am iti gyflawni bwriad rhyfeddol, sy'n sicr a chadarn ers oesoedd. Gwnaethost ddinas yn bentwr, a thref gaerog yn garnedd; ysgubwyd ymaith y plasty o'r ddinas, ac nis adeiledir byth eto. Am hynny y mae pobl nerthol yn dy ogoneddu, a dinasoedd cenhedloedd trahaus yn dy barchu. Canys buost yn noddfa i'r tlawd, yn noddfa i'r anghenus yn ei gyfyngder, yn lloches rhag y storm ac yn gysgod rhag y gwres. Oherwydd y mae anadl y rhai trahaus fel gwynt oer, neu fel gwres ar dir sych. 'Rwyt yn tawelu twrf y dieithriaid; fel y bydd gwres yn oeri dan gwmwl, felly y bydd cân y trahaus yn distewi.

Ar y mynydd hwn bydd ARGLWYDD y Lluoedd yn paratoi gwledd o basgedigion i'r bobl i gyd, gwledd o win wedi aeddfedu, o basgedigion breision a hen win wedi ei hidlo'n lân. Ac ar y mynydd hwn fe ddifa'r gorchudd a daenwyd dros yr holl bobloedd, llen galar sy'n cuddio pob cenedl; llyncir angau am byth, a bydd yr ARGLWYDD Dduw yn sychu ymaith ddagrau oddi ar bob wyneb, ac yn symud ymaith warth ei bobl o'r holl ddaear. Yr ARGLWYDD a lefarodd hyn. Yn y dydd hwnnw fe ddywedir, "Wele, dyma ein Duw ni. Buom yn disgwyl amdano i'n gwaredu; dyma'r ARGLWYDD y buom yn disgwyl amdano, gorfoleddwn a llawenychwn yn ei iachawdwriaeth."

Y Salm
(23)

Yr Arglwydd yw fy mugail, ni bydd eisiau arnaf. Gwna imi orwedd mewn porfeydd breision, a thywys fi gerllaw dyfroedd tawel, ac y mae ef yn fy adfywio. Fe'm harwain ar hyd llwybrau cyfiawnder er mwyn ei enw.

Er imi gerdded trwy ddyffryn tywyll du, nid ofnaf unrhyw niwed, oherwydd yr wyt ti gyda mi, a'th wialen a'th ffon yn fy nghysuro.

Yr wyt yn arlwyo bwrdd o'm blaen yng ngŵydd fy ngelynion; yr wyt yn eneinio fy mhen ag olew; y mae fy nghwpan yn llawn.

Yn sicr, bydd daioni a thrugaredd yn fy nilyn bob dydd o'm bywyd, a byddaf yn byw yn nhŷ'r Arglwydd weddill fy nyddiau.

Darlleniad o Philipiaid
(4.1-9)

Am hynny, fy nghyfeillion, anwyliaid yr wyf yn hiraethu amdanynt, fy llawenydd a'm coron, safwch yn gadarn fel hyn yn yr Arglwydd, fy nghyfeillion annwyl.

Yr wyf yn annog Euodia, ac yn annog Syntyche, i fyw'n gytûn yn yr Arglwydd. Ac yn wir y mae gennyf gais i tithau, fy nghydymaith cywir dan yr iau: rho dy gymorth i'r gwragedd hyn a gydymdrechodd â mi o blaid yr Efengyl, ynghyd â Clement a'm cydweithwyr eraill, sydd â'u henwau yn llyfr y bywyd.

Llawenhewch yn yr Arglwydd bob amser; fe'i dywedaf eto, llawenhewch. Bydded eich hynawsedd yn hysbys i bob dyn. Y mae'r Arglwydd yn agos. Peidiwch â phryderu am ddim, ond ym mhob peth gwneler eich deisyfiadau yn hysbys i Dduw trwy weddi ac ymbil, ynghyd â diolchgarwch. A bydd tangnefedd Duw, sydd goruwch pob deall, yn gwarchod dros eich calonnau a'ch meddyliau yng Nghrist Iesu.

Bellach, gyfeillion, beth bynnag sydd yn wir, beth bynnag sydd yn anrhydeddus, beth bynnag sydd yn gyfiawn a phur, beth bynnag sydd yn hawddgar a chanmoladwy, pob rhinwedd a phopeth yn haeddu clod, myfyriwch ar y pethau hyn. Y pethau yr ydych wedi eu dysgu a'u derbyn, eu clywed a'u gweled, ynof fi, gwnewch y rhain; a bydd Duw'r tangnefedd gyda chwi.

Darlleniad Efengyl ôl Sant Mathew
(22.1-14)

A llefarodd Iesu drachefn wrthynt ar ddamhegion. "Y mae teyrnas nefoedd," meddai, "yn debyg i frenin, a drefnodd wledd briodas i'w fab. Anfonodd ei weision i alw'r gwahoddedigion i'r neithior, ond nid oeddent am ddod.

"Anfonodd eilwaith weision eraill gan ddweud, 'Dywedwch wrth y gwahoddedigion, "Dyma fi wedi paratoi fy ngwledd, y mae fy mustych a'm llydnod pasgedig wedi eu lladd, a phopeth yn barod; dewch i'r neithior."' Ond ni chymerodd y gwahoddedigion sylw, ac aethant ymaith, un i'w faes, ac un arall i'w fasnach. A gafaelodd y lleill yn ei weision a'u cam-drin yn warthus a'u lladd. Digiodd y brenin, ac anfonodd ei filwyr i ddifetha'r llofruddion hynny a llosgi eu tref.

"Yna meddai wrth ei weision, 'Y mae'r wledd briodas yn barod, ond nid oedd y gwahoddedigion yn deilwng. Ewch felly i bennau'r strydoedd, a gwahoddwch bwy bynnag a gewch yno i'r wledd briodas.' Ac fe aeth y gweision hynny allan i'r ffyrdd a chasglu ynghyd bawb a gawsant yno, yn ddrwg a da. A llanwyd neuadd y wledd briodas gan westeion.

"Aeth y brenin i mewn i gael golwg ar y gwesteion a gwelodd yno ddyn heb wisg briodas amdano. Meddai wrtho, 'Gyfaill, sut y daethost i mewn yma heb wisg briodas?' A thrawyd y dyn yn fud. Yna dywedodd y brenin wrth ei wasanaethyddion, 'Rhwymwch ei draed a'i ddwylo a bwriwch ef i'r tywyllwch eithaf; bydd yno wylo a rhincian dannedd.'

"Y mae llawer, yn wir, wedi eu gwahodd, ond ychydig wedi eu hethol."

Defynddir gweddi ôl-ynghyd

Duw sanctaidd a gwynfydedig, porthaist ni â chorff a gwaed dy Fab a'n llenwi â'th Ysbryd Glân: bydded i ni dy anrhydeddu, nid yn unig â'n gwefusau ond â bywydau wedi eu cysegru i wasanaeth Iesu Grist ein Harglwydd. AMEN

Testun allan o Gair yr Arglwydd 2011 – yr Eglwys yng Nghymru. Hawlfraint Cyhoeddiadau'r Eglwys yng Nghymru 2011. Colectau a Gweddïau Ôl-Gymun o'r llyfr *Y Calendr Newydd a'r Colectau* Hawlfraint Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru 2003 ISBN – 1853115495. Dyfyniadau a Salmau trwy ganiatâd o'r *Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig 2004* Cymdeithas (Brydeinig a Thramor) y Beibl. Cedwir pob hawl.